# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Herio Perfformiad yr Aelod Cabinet Dros Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Swyddog perthnasol:** | Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28/11/2023 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**

   Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

   Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran sefyllfa ariannol yr adran.

3.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Dylid nodi mai gwybodaeth Awst a Medi 2023 a graffwyd yn y cyfarfod hwnnw ym mis Hydref ac nid wyf yn bwriadu manylu ar bob mesurydd a phrosiect ond rwyf wedi amlinellu'r meysydd penodol sydd i'w llongyfarch neu sy'n destun pryder i mi ar hyn o bryd.

4. **Prosiectau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28**

4.1 Isod, mae diweddariad fesul prosiect i amlygu'r prif feysydd sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder ond dylid nodi nad wyf yn cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn.

**Cefnogaeth Ataliol yn Lleol**

4.2 Rydym yn parhau i aros penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio ar gyfer Dolfeurig sydd wedi mynd i'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn creu oedi ar gyfer medru dechrau'r gwaith yno ac mae'r adran yn pwyso ar y Parc i symud ymlaen efo hyn.

4.3 O safbwynt y nod i wella hygyrchedd at wybodaeth ac at ddigwyddiadau ar draws y sir, mae tudalennau gwefan newydd yr adran bellach yn fyw ond mae gwaith yn parhau i'w gwella'n barhaus. Mae prosiect wedi'i sefydlu hefyd er mwyn ailedrych ar ein defnydd fel

cyngor gyfan o Dewis Cymru ac mae swyddog prosiect newydd gychwyn ar y gwaith. Byddwn yn gweithio ar integreiddio Dewis Cymru i wefan y Cyngor yn ogystal â gwneud llawer gwell defnydd o'r wefan. Mae Dewis Cymru yn wefan sy'n galluogi'r cyhoedd i chwilio am yr hyn sy'n digwydd neu'r hyn sydd ar gael yn lleol iddyn nhw, a thrwy weithio'n agos gyda holl adrannau'r cyngor, y trydydd sector a grwpiau cymunedol mae potensial sylweddol i wella mynediad at weithgareddau ataliol sy'n hybu llesiant i bobl ar draws y sir.

**Byw'n Annibynnol**

4.4 O safbwynt Tai Gofal Ychwanegol, fel nodwyd yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022-23, rydym bellach wedi cytuno efo Adra mai Tai Gofal Ychwanegol Ysgafn sydd fwyaf addas ar gyfer y safle ym Mhwllheli a'n bod yn canolbwyntio ar ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol llawn ar safle Penrhos wrth i'r prosiect yno ddatblygu. Disgwylir i'r datblygiad ysgafn ym Mhwllheli agor o'r 27ain o Dachwedd ac felly mae'r adran wrthi'n gwneud y cysylltidau priodol er mwyn adnabod unigolion addas i'r safle.

4.5 Rwy'n bryderus ynghylch diffyg datblygiad ar y gwaith o adnabod safle addas i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yn Nolgellau ac rwyf wedi gofyn am fwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod herio a chefnogi perfformiad nesaf.

4.6 Rwy'n falch o adrodd fod cynnydd cyson yn parhau ar ein gwaith i ehangu opsiynau llety addas ar gyfer unigolion ag Anabledd Dysgu, gyda tŷ a chefnogaeth wedi'i orffen yn y Groeslon a threfniadau mewn lle i 3 unigolyn symud yno. Mae'r gwaith yn parhau ar eiddo eraill ar draws y sir.

4.7 Mae'r gwaith trosglwyddo pecynnau gofal cartref wedi'i gwblhau bellach mewn 13 is-ardal (allan o 17). Fodd bynnag, mae gen i bryderon am y sefyllfa mewn rhai ardaloedd penodol megis Ffestiniog lle mae un o'r darparwyr a enillodd y tendr wedi methu a recriwtio ac felly rydym wedi gorfod terfynu'r gytundeb. Oherwydd materion gweithredol fel hyn sydd angen sylw, mae wedi bod yn anodd hyd yma i ganolbwyntio ar waith i wreiddio'r model newydd. Byddaf yn rhannu mwy o wybodaeth am y sefyllfa gyda'r model gofal cartref wrth ehangu ar y data perfformiad isod.

4.8 Mae'r gwaith o baratoi Cynllun Gofalwyr hefyd yn mynd rhagddo'n dda, ac rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth perthnasol roi sylw at ddatblygu mesuryddion i dystiolaethu'r gwaith hwn i'r dyfodol.

4.9 Mae'r gwaith o baratoi at drawsnewid digidol erbyn 2025 yn mynd rhagddo'n dda gyda'r gwasanaeth wedi comisiynu offer digidol newydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth newydd i'r dyfodol a rhaglen waith wrthi'n cael ei rhoi at ei gilydd i ddisodli pob darn o offer presennol erbyn 2025.

4.10 Yn dilyn darn o waith yn edrych ar y model taliadau uniongyrchol, mae penderfyniad wedi'i wneud i ddod a'r gytundeb cefnogi taliadau uniongyrchol gyda Diverse Cymru i ben ar 31/10/2023 a thîm prosiect bychan wrthi'n cysylltu a thrafod efo holl dderbynwyr

taliadau uniongyrchol Gwynedd i roi llais a rheolaeth i bawb ar bwy fydd yn darparu gwasanaeth cyflogres iddynt i'r dyfodol. Disgwylir y bydd pawb wedi trosglwyddo i ddarparwyr newydd cyn diwedd 2023. Rwy'n awyddus iawn i'r gwaith yma symud ymlaen fel mater o flaenoriaeth er mwyn i'r adran fedru canolbwyntio ar gynyddu'r canrannau sy'n derbyn gwasanaethau drwy'r cyfrwng yma (14% ar hyn o bryd) – a fyddai yn ei dro yn lleddfu rhywfaint ar y pwysau sylweddol sydd am wasanaethau gofal a chefnogaeth ehangach.

**Gofal Arbenigol o Ansawdd**

4.11 Rydym bellach yn gwneud defnydd o'r uned newydd yn ein cartref preswyl yn Ffestiniog ac felly mae'r trigolion yn manteisio o'r datblygiad, ond rydym yn gorfod cadw ystafelloedd eraill yn y wag ar hyn o bryd oherwydd anawsterau recriwtio. Mae gwaith yn parhau ar yr uned dementia yn Bangor ac rydym bellach wedi derbyn y dystysgrif Rheolaeth Adeiladu er mwyn gallu agor yr uned newydd yn y Bermo. Rydym wedi cynnal cyfarfod gyda'r Adran Tai ac Eiddo er mwyn ceisio dysgu gwersi o arafwch y gwaith yn y Bermo ac mae materion goruchwylio gwaith pellach angen sylw fel rhan o unrhyw waith datblygu pellach i'r dyfodol.

4.12 Rydym wedi dechrau defnyddio meddalwedd CareCubed i'n galluogi i feincnodi costau darparwyr gofal Gwynedd yn erbyn darparwyr eraill yn genedlaethol ac mae hyn yn rhoi mwy o hyder i'r tîm comisiynu wrth drafod ffioedd gyda chartrefi preswyl a nyrsio. Rydym hefyd wedi llwyddo i gyrraedd cytundeb gyda rhai darparwyr ar ôl proses 'llyfr agored' ond mae anghydfod yn parhau gydag eraill ynghylch ein ffioedd.

4.13 Mewn perthynas ag ehangu ein darpariaeth gofal nyrsio mewnol, rydym yn disgwyl rhagor o arweiniad o ran yr achos busnes a'r arian grant i ariannu cynllun cartref nyrsio Penrhos. Rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau am opsiynau eraill i ddatblygu gwelyau nyrsio gyda'r Bwrdd Iechyd.

4.14 Mewn perthynas â chynnal adolygiad o'n model darparu gwasanaethau iechyd meddwl, rydym wedi rhannu ein bwriad i ddatblygu gwasanaeth ar wahân gyda'r Bwrdd Iechyd ac mae'r adran wrthi'n cynnal gweithdai gyda staff i drafod a chytuno ar bolisi gweithredu a meini prawf. Mae'r Rheolwr Prosiect wrthi'n ceisio adnabod gofod swyddfa yn y ddwy ardal hefyd a bydd modd cytuno ar amserlen unwaith y bydd hyn wedi'i adnabod.


**5. Perfformiad a Mesurau**

5.1 Yn fy adroddiadau diweddaraf, rydw i wedi adrodd fy mod yn hapus gyda'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan yr adran mewn perthynas â datblygu mesurau a threfniadau i adrodd ar eu perfformiad mewn modd sy'n ein caniatáu i weld y perfformiad yn glir a thros amser. Mae'r gwaith gwella yma'n parhau ac mae'n glir i weld bod ymdrech i adeiladu ar y data yn parhau o gyfarfod i gyfarfod. Byddaf yn cyfeirio isod at y mesurau hynny sy'n peri pryder neu'n dangos cynnydd sylweddol.


5.2 O fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae'r rhestr aros ar gyfer derbyn asesiad therapi galwedigaethol yn parhau i gynyddu ar raddfa bryderus

gyda 62 unigolyn wedi bod ar y rhestr aros am fwy na 90 diwrnod ar ddiwedd mis Medi 2023 o'i gymharu â 42 ar ddiwedd mis Ebrill. Er bod sefyllfa staffio therapyddion galwedigaethol wedi gwella, mae swydd wag ac absenoldebau yn golygu nad ydym yn gallu cynnig asesiad amserol i bawb ac felly mae'r adran yn blaenoriaethu ar sail risg ac yn monitro'r rhestrau aros yn rheolaidd. Disgwylir i hyfforddai Therapi Galwedigaethol gymhwyso ym mis Rhagfyr eleni er mwyn llenwi'r swydd wag. Mae'r adran hefyd yn edrych ar swydd ddisgrifiadau Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol ac yn cynnig hyfforddiant i'w galluogi i asesu ar gyfer addasiadau bach a chanolig.

5.3 Yn fy adroddiad diwethaf, roeddwn yn adrodd fy mod yn falch iawn o weld cwymp yn y canran o oriau **gofal cartref** sydd heb eu diwallu ar ôl rhai misoedd pryderus yn flaenorol. Disgynnodd y ganran o 15.6% ym mis Mawrth i 12.1% ym mis Ebrill. Mae o bryder sylweddol gen i adrodd felly bod y canran wedi cynyddu unwaith eto i 14%. Roedd 154 unigolyn yn aros am ofal cartref o'r newydd ddiwedd Medi 2023 (o'i gymharu â 137 ddiwedd Mai). Mae'r adran yn adrodd fod nifer o ddarparwyr gofal yn parhau i gael rhwystrau i ddenu a chynnal staff gyda rhai ardaloedd penodol yn broblemus – gan gynnwys Ffestiniog a Phorthmadog, ac mae absenoldebau tymor hir hefyd yn cyfrannu. Mae cynllun mewn lle i fynd i'r afael â'r rhestr aros yn Ffestiniog a thrafodaethau wedi cychwyn ar y ffordd ymlaen ym Mhorthmadog. Mae'r adran wedi buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad y model gofal cartref newydd ac felly mae gen i bryderon cynyddol am y diffyg gostyngiad yr oeddwn yn obeithio ei weld yn y ffigurau. Rydw i wedi gofyn am gyfarfod pellach eto ar y mater yma er mwyn mod i'n glir ar yr y cyfeiriad rydan ni'n mynd iddo o safbwynt gofal cartref, ac rwy'n awyddus i edrych ar hyn yng nghyd-destun ein gwaith i gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn taliadau uniongyrchol hefyd.





5.4 Rydym wedi gweld dirywiad yn y niferoedd o unigolion gydag **Anabledd Dysgu** sydd mewn cyfleon gwaith, gyda'r ffigwr yn 46 ddiwedd Medi o'i gymharu â 56 ddiwedd Ebrill. Mae hyn o ganlyniad i nifer o sefyllfaoedd amrywiol, gan gynnwys unigolion yn symud ymlaen i interniaeth neu yn dychwelyd i addysg ar ôl yr haf. Fodd bynnag, mae na sefyllfaoedd llai dymunol hefyd, er enghraifft lle mae cyflogwr wedi dod a swydd unigolyn i ben heb gysylltu efo'r gwasanaeth i roi cyfle iddynt roi cefnogaeth ychwanegol i mewn. Mae darganfod cyfle gwaith arall i'r unigolyn yma, yn ogystal â rhoi sylw i'r trefniadau sydd mewn lle i'n helpu i osgoi y math yma o sefyllfa i'r dyfodol yn flaenoriaeth.





5.5 Rydym yn parhau i weld cynnydd brawychus yn y niferoedd o gyfeiriadau i'r tîm **Iechyd Meddwl** gyda'r ffigurau rhwng 450 a 500 yn y mis yn y misoedd diwethaf. Gyda'r bwriad i ddatblygu gwasanaeth iechyd meddwl ar wahân i'r Bwrdd Iechyd ar y gweill, mae'r timau wedi bod yn craffu achosion er mwyn ystyried ai anghenion gofal cymdeithasol neu anghenion gofal iechyd sydd gan yr unigolion sy'n cael eu cyfeirio. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod oddeutu 40% o'r cyfeiriadau gydag anghenion gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ganran sylweddol iawn ac rwyf yn bryderus am gapasiti'r adran i ymateb gyda'r galw yn tyfu fel y mae ar hyn o bryd. Wedi dweud hyn, mae'r gwasanaeth iechyd meddwl integredig wedi llwyddo i roi cynllun gofal cyfredol mewn lle ar gyfer 456 o unigolion ac mae hyn i'w longyfarch.

5.6 Mae'r gwasanaeth llesiant wedi llwyddo yn ail chwarter y flwyddyn i ddenu 281 o unigolion ar draws y sir at wasanaethau Dementia Actif. Mae'r gwasanaeth yma yn hanfodol i gefnogi unigolion sy'n byw a dementia a'u teuluoedd ond mae 157 o'r unigolion yma yn unigolion sydd heb ddiagnosis o ddementia a sydd ddim yn ofalwyr chwaith. Rwy'n hynod o falch o weld y niferoedd yma ac mae'n hanfodol ein bod yn parhau i adeiladu a datblygu'r gwasanaethau ataliol hynod werthfawr yma sydd yn cynorthwyo bobl i barhau i fyw'n annibynnol ac i gyfrannu o fewn eu cymunedau ac sy'n rhoi cefnogaeth gwbl hanfodol i ofalwyr di-dâl. Rwy'n bryderus fodd bynnag am yr ansicrwydd ar wasanaethau o'r fath oherwydd ei fod yn ddibynnol ar grantiau. Gweler fwy o wybodaeth am grantiau yn yr hinsawdd ariannol presennol yn 6.2.


5.7 Rwy'n falch o nodi fod y nifer o achosion ble mae'r ymholiadau **diogelu oedolion** wedi eu cwblhau o fewn y 7 diwrnod gwaith statudol wedi cynyddu'n ôl i 96% yn dilyn gweld dirywiad yn fy adroddiad diwethaf. Rwyf hefyd yn dymuno llongyfarch yr adran ar lwyddo i reoli'r perygl mewn 100% o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion. Mae hwn yn berfformiad ardderchog i'r adran ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n aros am asesiad **Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS)** yn parhau yn bryderus gyda 306 o unigolion ar y rhestr aros am asesiad ddiwedd Medi. Mae'r adran wedi derbyn grant am £110,000 gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r rhestr aros, ac rwyf wedi cael sicrwydd fod yr adran yn ailedrych ar y gefnogaeth weinyddol sydd ar gael i'r Cydlynydd DoLS i sicrhau defnydd doeth o'i hadnodd hi fel asesydd cymwys. Byddaf yn eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.



5.8 Rwyf yn adrodd yn gyson bod ein cyfradd llenwi gwelyau mewn **cartrefi preswyl** mewnol yn bryderus i mi (79% ym mis Medi 2023) ac mae diffyg gwelliant yn y canran yma. Rwyf wedi derbyn eglurhad gan yr adran fod y ffigwr yma'n cynnwys gwelyau, nifer ohonynt yn rai dementia, sydd methu cael eu defnyddio ar hyn o bryd o ganlyniad i waith sy'n mynd rhagddo ar y cartrefi. Mae mwy am hyn ym mharagraff 4.11. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn o fod wedi derbyn cadarnhad gan yr adran fod y gwaith o osod lifft newydd yn ein cartref yn Nolgellau wedi ei gwblhau o'r diwedd – mae hyn yn rhoi mynediad i 5 gwely ychwanegol ac mae'r adran yn adnabod unigolion addas ar eu cyfer.




5.9 Yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2023, mae'r tîm datblygu gweithlu wedi cyfeirio 46 enw ymlaen i'r gwasanaethau gofal drwy ymgyrchoedd recriwtio. Mae hyn yn nifer uchel iawn o'i gymharu â ffigurau'r misoedd blaenorol. Cynhaliwyd digwyddiadau yn yr Eisteddfod a nifer o ymgyrchoedd yn ystod y cyfnod canlyniadau TGAU/Lefel A sydd wedi rhoi hwb i'r niferoedd yn ystod y cyfnod. Rwy'n mawr obeithio y bydd modd i ni barhau i weld datblygiad yn y maes yma. Mae'r Tîm Datblygu Gweithlu wedi trosglwyddo i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, ond byddant yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r Adran Oedolion. Bydd angen trafodaeth lle bydd yr elfen recriwtio yn eistedd i'r dyfodol.




## 6. Sefyllfa Ariannol

6.1 Fel y rhagwelwyd yn yr adroddiad diwethaf, ac fel sydd wedi ei drafod yn y cyfarfod Cabinet diweddaraf, mae sefyllfa ariannol yr adran yn parhau yn un heriol dros ben, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn ystod 2023/24. Ar sail amcan mis Awst 2023, mae'r Adran Gyllid yn rhagweld y bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gorwario oddeutu £6.5m ar y gyllideb ar gyfer 2023/24. Mae elfennau o'r gorwariant yn ymwneud â phwysau ar wasanaethau, ac mae'r pwysau yma'n cael ei deimlo ar draws y wlad. Er hynny, mae elfennau eraill o fewn rheolaeth yr adran, ac rwyf yn pwyso ar yr adran i ddod a chynlluniau gerbron i fynd i'r afael â'r gorwariant. Tair elfen y byddaf yn gofyn am gynlluniau penodol ynglŷn â hwy yw'r ddarpariaeth gofal cartref, comisiynu lleoliadau preswyl a nyrsio, a'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Byddaf yn sicrhau fy mod wedi derbyn cynlluniau penodol i fynd i'r afael â'r tair elfen yma erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

6.2 Fe soniais yn fy adroddiad diwethaf ei bod yn allweddol fod adnoddau ychwanegol (e.e grantiau) i'r sector yn cael eu darparu ar sail barhaol/hir dymor er mwyn gallu ariannu rhai o'r newidiadau sydd wirioneddol eu hangen yn y maes. Yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, mae'n bosib y bydd y Llywodraeth yn edrych i grebachu rhai o'r grantiau ar gyfer 2024/25. Dwy enghraifft benodol lle mae risg sylweddol ydi'r Gronfa Integreiddio Iechyd a Gofal (RIF), a Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae gwerth y ddau grant yma yn filiynau bob blwyddyn, a byddai tynnu'r grantiau yma'n ôl yn ein rhoi mewn sefyllfa amhosib. Byddwn fel Cyngor yn parhau i bwysleisio i Lywodraeth Cymru fod angen cynnal y lefel buddsoddiad yn y sector.

6.3 Oherwydd y pwysau ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2024/25, mae cynlluniau arbedion wedi eu hail gyflwyno i'w cysidro gan y Cynghorwyr, a bydd yr Adran yn gweithredu ar yr argymhellion fydd yn deillio o'r gwaith. Dylid nodi fod rhai cynlluniau arbedion hanesyddol yn parhau heb eu darganfod, a bod hyn yn cyfrannu at y gorwariant o £6.5m. Cafodd cynlluniau hanesyddol gwerth £1.48m eu dileu gan y cabinet yn ei gyfarfod ar y 7/11/23 gan nad oedd modd gweithredu ar y cynlluniau oherwydd newid mewn amgylchiadau/pwysau cynyddol ar y gwasanaethau.

6.4 Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o dan arweiniad y cyfarwyddwr corfforaethol Huw Dylan Owen i edrych ar 'lechen lân' ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Hynny yw, sut fyddai ymarfer da o ran Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych i'r dyfodol, a faint fyddai'r gwasanaethau hynny'n ei gostio. Mi fydd adroddiad yn dod gerbron y Cabinet yn ystod chwarter cyntaf 2024 yn eich diweddaru ar y gwaith yma.

## 7. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 7.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

### 7.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb